


Tirwedd Gysegredig A Sacred Landscape



© Next Perspectives. Llywodraeth Cymru / Welsh Government 2013

- Rydych chi yma / You are here
- Carnedd gopa / Summit cairn
- Clwstwr henebion / Monument cluster
- Chwarel bwyell Graiglwyd / Axe quarry
- Llwybr hynafol / Ancient trackway
- Llwybr taith gerdded / Walking-tour route

Nid y chwareli Neolithig yng Ngraihlwyd yw'r unig safleoedd cynhanesyddol pwysig ym Mhenmaenmawr. Un o nodweddion yr ucheldiroedd hyn yw'r carneddi claddu o'r Oes Efydd, cylchoedd meini a meini hir. Dyma un o'r tirweddau cynhanesyddol cyfoethocaf ym Mhrydain.

Roedd chwareli bwyell Neolithig Graiglwyd yn lleoliadau hynod o bwysig, ac mae'n debyg yn fannau cysegredig 6,000 o flynyddoedd yn ôl.

Erbyn dechrau'r Oes Efydd (4,500 i 3,500 o flynyddoedd yn ôl), er nad oedd bwyell yn cael eu cynhyrchu yno, roedd yr ardal yn parhau'n arbennig. Mae nifer y carneddi claddu yma'n awgrymu fod yr ucheldiroedd anghysbell wedi'u cysegru i'r meirwon. Fodd bynnag, wrth edrych yn agosach, gwelir fod hon yn dirwedd arbennig i'r byw hefyd.

Lleoliadau cyndeidiol

Ceir clystyrau o henebion o'r Oes Efydd cynnar o amgylch y chwareli Neolithig, yn enwedig yn Waun Llanfair lle gwelir nifer o garneddi claddu. Mae'r gwaith cloddio archeolegol a wnaed yma yn 2006 yn awgrymu bod cysylltiadau rhyngddynt. Canfuwyd haenau o ddiwedd y cyfnod Neolithig yn nwy o'r tair carnedd a archwiliwyd.

Cyn y cyfnod Neolithig pan gychwynwyd torri coed i greu tiroedd pori agored, coetir oedd y rhan fwyaf o'r ardal hon. Mae'n bosib fod grwpiau oedd yn ymweld â'r chwareli wedi dechrau traddodiad o gladdu yma, a barhaodd ar ôl diwedd oes y chwareli.

Roedd y tiroedd pori yn adnodd tymhorol pwysig, a ddefnyddiwyd o'r gwanwyn hyd yr hydref. Efallai fod y carneddi'n ffordd o nodi pwy oedd â'r hawl i bori anifeiliaid mewn lleoliad, a phryd. Mae'n bosib fod y grwpiau'n cynnal eu hawl i'r ardaloedd drwy apelio at ysbrydion eu cyndeidiau yn y carneddi.



Mae'n debyg fod y mynyddoedd yn fannau sanctaidd, a'r carneddi wedi'u cysegru i'r ysbrydion a oedd yn byw yno. Heddiw, mae pobl yn addoli yng ngharneddi Ovoo ym Mongolia er mwyn i'r ysbrydion fod yn garedig wrthynt.

The mountains were probably holy places with cairns dedicated to the spirits believed to live there. Today, people worship at Ovoo cairns in Mongolia so that the spirits will treat them kindly.

© Christophe Boisvieux

Teithio a chynnull

Mae henebion i'w canfod ar hyd y llwybrau hynafol sy'n croesi'r ucheldiroedd rhwng Dyffryn Conwy ac arfordir y gogledd-orllewin. Roedd y safleoedd hyn yn lleoliadau cynnull pwysig ar gyfer cymunedau symudol a gwasgaredig yr Oes Efydd. Byddai grwpiau o bobl o bell yn cyfarfod yma i gyfnwidiadau a chynnyrch, ac o bosib at ddibenion priodas a chaethwasiaeth.

Journeys and gatherings

Monuments are found along ancient trackways that cross the uplands between the Conwy Valley and the north-west coast. For the mobile and scattered communities of the Bronze Age, these sites were important gathering places. Here, distant groups would meet to exchange ideas, goods and perhaps even people for marriage or slavery.

The Neolithic quarries at Graiglwyd are not the only important prehistoric sites in Penmaenmawr. The uplands here are dotted with early Bronze Age burial cairns (stone mounds), stone circles and standing stones. This is one of the richest prehistoric landscapes in Britain.

Graiglwyd's Neolithic axe quarries were very important, and probably sacred places 6,000 years ago.

By the early Bronze Age (4,500 to 3,500 years ago), axes were no longer being made, but the area remained special. The many burial cairns here suggest that this remote upland was dedicated to the dead. A closer look, however, shows that this was also an important landscape for the living.


Ancestral places

Early Bronze Age monuments cluster around the Neolithic quarries, especially at Waun Llanfair, where there are numerous burial cairns. Archaeological excavations here in 2006 suggest a link. Two of the three cairns investigated overlay finds of the late Neolithic.

Most of the area was woodland before the Neolithic period when tree-felling began to create open land for grazing. Groups visiting the quarries may have started a tradition of burials here that continued long after the quarries fell out of use.

The pastures were an important seasonal resource, used from spring to autumn. Perhaps the cairns indicated who could graze animals where and when. By appealing to the spirits of ancestors at the cairns, groups may have maintained their claim to an area.

Cylch cerrig Meini Hirion, Cefn Coch.
The Meini Hirion stone circle, Cefn Coch.
© Jean Williamson



Uchod: Mae'r garnedd a welir ar wastadedd copa Carnedd Dafydd yn nodweddiadol o'r carneddi mawr a welir ar nifer o gopaon a chribau mynyddoedd y Carneddi. Mae iddynt olygfeydd eang, a gellir eu gweld o bell.

Above: Large cairns sit on many of the peaks and ridges of the Carneddau, like this one at the summit plateau of Carnedd Dafydd. They have extensive views and can often be seen from far away.

© David Hopewell, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd Archaeological Trust



Chwith: Arteffactau carreg fflint o'r cyfnod Neolithig hwyr, a chaib garreg o fath Graiglwyd, a osodwyd ar y ddaear o dan garnedd yn Waun Llanfair.







Left: Late Neolithic flint artefacts and a pick of Graiglwyd-type stone, which had been laid out on the ground beneath a cairn at Waun Llanfair.

© Mick Sharp, Jean Williamson

Uchod: Canfuwyd fflochiau niferus o gerrig fflint a charreg Graiglwyd, sef olion cynhyrchu a thrwsio offer cerrig, o dan y garnedd hon yn Waun Llanfair. Mae'n debyg i'r garnedd gael ei hadeiladu ar hen safle anheddiad Neolithig.

Above: Numerous flakes of flint and Graiglwyd-stone from making and repairing stone tools were found beneath this cairn at Waun Llanfair. The cairn was probably built on an old Neolithic settlement site.

© John Griffith Roberts



Lluniau archeolegol o'r cloddio yng Nghern Coch 1958-1959.
Archaeological drawings from excavations at Cefn Coch 1958-1959.
Atgynhychwyd gyda chaniatâd y Gymdeithas Cynhanesyddol / Reproduced with permission of the Prehistoric Society

Mewn Gwybodaeth mae Grym Knowledge is Power

Y safleoedd mwyaf trawiadol yn ucheldiroedd Penmaenmawr yw'r clwstwr yng Nghern Coch. Ceir tair heneb yma, sef cylch mawr 'Meini Hirion', carnedd gylchog dienw (clawdd cerrig) a thrydydd patrwm o gerrig sy'n anoddach i'w ddehongli.

Cafodd y Meini Hirion a'r carnedd gylchog eu cloddio'n rhannol yn 1958 ac 1959. Ynghanol y cylch o gerrig canfuwyd dau botyn ben i waered. Roeddynt yn cynnwys esgyrn wedi'u hamlogsi a oedd yn perthyn i ddau blentyn rhwng 10 a 13 oed. Ar un adeg credwyd eu bod wedi'u haberthu. Ond, erbyn hyn gwyddom ei bod yn gyffredin i ganfod plant wedi'u claddu mewn henebion yn dyddio o'r Oes Efydd cynnar – a oedd o bosib yn cynrychioli cred mewn cylch o fywyd, marwolaeth ac ailenedigaeth.

Defnyddiwyd cylchoedd meini ar gyfer defodau a dathliadau cymhleth yn ymwneud â digwyddiadau mawr bywyd megis rhoi genedigaeth, priodas a marwolaeth. Roedd eu lleoliad a'u 'dyluniad' yn bwysig iawn ar gyfer y defodau hyn.

Wrth ddilyn y llwybr hynafol o'r dwyrain gellir gweld cylch y Meini Hirion ar y gorwel. Tybed a oedd yr olygfa ddramatig hon yn rhan bwysig o'r defodau? Yn union fel ag y mae penseiri'n cynllunio ein hadeiladau modern, cynlluniwyd yr henebion hyn i reoli mynediad a symudiadau pobl. Mae'n debygol fod y bobl a oedd yn gyfrifol am y defodau yn cynyddu eu hawdurdod drwy gyfrwng y cyfrinachau yn eu meddiant. Nid syniad modern yn unig yw 'mewn gwybodaeth mae grym'...

The most spectacular sites in the Penmaenmawr upland form a cluster at Cefn Coch. There are three monuments here – the large stone circle 'Meini Hirion', an unnamed 'ring cairn' (circular bank of stone), and a strange third arrangement of stones that is more difficult to understand.

The Meini Hirion ('The Long Stones') and the ring cairn were partly excavated in 1958 and 1959. At the centre of the stone circle, two upside-down pots were found. These contained the cremated bones of two children aged between 10 and 13. They were once thought to be sacrifices. However, now we know that child burials are quite common at early Bronze Age monuments – perhaps to symbolise belief in a cycle of life, death and rebirth.

Stone circles were used for complex rituals and celebrations, marking major life events like childbirth, marriage and death. Their location and 'design' were very important for these rituals.

The Meini Hirion circle appears on the skyline when approached along the ancient track from the east. Was this dramatic approach an important part of the rituals? Just as architects carefully plan our modern buildings, these monuments were designed to carefully control people's access and movement. The people in charge of these rituals probably gained authority through the secrets they kept. 'Knowledge is power' is not just a modern idea...

Cysylltwch ag aelod o staff am ragor o wybodaeth am y cyhoeddiadau a'r ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddir yn ein harddangosfeydd.

For information about the publications and sources of information used in our exhibitions, please ask a member of staff.



DILYNWCH Y STORI

Ewch yn agosach at y bobl y tu cefn i'r safleoedd – archwiliwch yr arteffactau yn **Amgueddfa Llandudno** ac **Amgueddfa ac Oriol Gelf Gwynedd, Bangor**. Dilynwch fwyngloddwyr yr oes efydd ym **Mwyngloddiau Pen y Gogarth**, un o fwyngloddiau copr cynharaf Ewrop.

FOLLOW THE STORY

Get closer to the people behind the sites – explore the artefacts at **Llandudno Museum** and **Gwynedd Museum and Art Gallery, Bangor**. Follow bronze age miners underground at the **Great Orme Mines**, one of Europe's earliest copper mines.





Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Mae arddangosfa Penmaenmawr yn un o ffrydiau Prosiect Twristiaeth Treftadaeth Cadw. Arweinir y prosiect gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Gwynedd ar y cyd â Pharc Cenedlaethol Eryri a chaiff ei ariannu'n bennaf gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd.

The Penmaenmawr exhibition is one of the strands of Cadw's Heritage Tourism Project. The project is led by Conwy and Gwynedd County Council in partnership with Snowdonia National Park, and is largely funded by the Welsh Government and the European Regional Development Fund.